Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Y Fali

**Ysgol Gymuned Y Fali**
**Y Fali**
**Isle of Anglesey**
**LL63 3EU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Y Fali

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Y Fali |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Ddydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Lauren Williams |
| Person â gofal | Mari Pritchard |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 15 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 5 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd LLun i Ddydd Gwener 8.45 tan 3.00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma arolwg cyntaf y lleoliad yn dilyn ail gofrestriad. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ionawr 2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 12/03/2024 |
| Mae cynlluniau mewn lle i'r lleoliad symud i gaban newydd sbon ar safle yr ysgol cyn diwedd tymor yr haf. Fydd hyn yn galluogi iddynt godi rhifau cofrestredig y plant y gellir gofalu amdanynt. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.**

## Argymhellion

A1 Parhau i ddatblygu dulliau cadarnhaol o gefnogi ymddygiad

A2 Datblygu ymhellach y defnydd o arsylwadau i hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant

A3 Ffurfioli prosesau rheoli perfformiad yr ymarferwyr

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus iawn o fewn eu hamgylchedd dysgu a chwarae. Maent yn frwdfrydig ac yn mwynhau'r gweithgareddau addas sydd ar gael iddynt. Er enghraifft mae'r plant yn mynd ati i ddewis eu tegan, eu gweithgaredd a ble i chwarae yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd y lleoliad gan wenu a rhedeg at ymarferwyr ac yn amlwg yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Dengys bron pob plentyn hoffter tuag at yr ymarferwyr gan fynd atynt yn hapus a chyfforddus. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd i eistedd ar lin ymarferwyr gyda llyfr neu yn gorwedd wrth eu ochor i chware gem ar y tabled electronig. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu perthnasoedd cadarn gyda phlant eraill. Er enghraifft, wrth rannu'r potiau paent yn ystod gweithgaredd paentio. Fodd bynnag, nifer fach o blant sy'n dechrau dysgu pwysigrwydd o aros eu tro a rhannu adnoddau a theganau. Dengys plant hunan-falchder yn eu gwaith trwy ddangos eu darn terfynol yn falch i ymarferwyr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn symud o un gweithgaredd i'r llall yn hyderus gan ddewis gweithgareddau o ddiddordeb. Maent yn dawel eu meddwl gan wybod nad oes pwysau arnynt i gymryd rhan os nad ydynt yn dymuno hynny. Er enghraifft, yn ystod y sesiwn ganu, dewisodd rhai fynd i chwarae yn hytrach nag eistedd ar y mat. Mae gan y plant ais cryf ac maent yn cyfathrebu eu dymuniadau a'u hoffterau yn hyderus. Er enghraifft mae'r plant yn dewis ble i eistedd amser snac a gadael y bwrdd pan maent wedi gorffen. Fodd bynnag, mae nifer fach o blant yn ei chael yn anodd i dalu sylw i gyfarwyddiadau'r ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn canolbwyntio am

amser cynyddol, ac yn frwdfrydig iawn wrth chwarae rôl yn y tŷ bach twt yn creu bwyd a diod i’w gilydd.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn helpu ei gilydd ac yn cydweithio’n dda fel tîm. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda’i gilydd i greu tŷ allan o flociau, ac yn cymryd eu tro i ychwanegu blociau a phobol bychan. Mae rhai o'r plant yn ymddwyn yn annerbyniol ar adegau, ac nid ydynt bob amser yn cymryd sylw o gyfarwyddiadau’r ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymfalchïo yn hapus pan yn cael eu canmol gan yr ymarferwyr am helpu i dacluso neu am wrando’n dda yn ystod amser cylch.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da. Maent yn arwain eu chwarae gan ddewis gweithgareddau a chyflawni tasgau wrth chwarae rôl, paentio ac adeiladu gyda blociau. Maent yn gallu diwallu eu hanghenion personol trwy fynd i'r tŷ bach a gwisgo cot. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgymryd â thasgau dyddiol yn annibynnol, fel golchi eu dwylo a tacluso ar ôl gorffen snac.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu’r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad:  Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu iechyd a diogelwch y plant yn llwyddiannus. Maent yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau yn dda ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau’r lleoliad yn effeithiol. Mae gan ymarferwyr dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o anghenion unigol plant. Maent yn dilyn gweithdrefnau’n fanwl ac yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau a digwyddiadau ac yn deall gweithdrefnau meddyginiaeth.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o weithdrefnau hylendid ac maent yn eu gweithredu’n effeithiol. Er enghraifft, maent yn diheintio arwynebau yn ofalus cyn byrbrydau, ac yn gwisgo menig a ffedog wrth newid cewynnau gan gofnodi gwybodaeth yn gywir. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o brosesau diogelu plant. Maent yn ymwybodol o’r gweithdrefnau i’w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryder. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac maent wedi cwblhau hyfforddiant ar lefel uwch. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y cymarebau staffio yn addas ac yn sicrhau bod gweithdrefnau derbyn plant a’u harwyddo pan yn gadael yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn annog rhieni a gofalwyr i ddarparu byrbrydau iachus yw plant.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn, yn parchu eu diddordebau, hoffterau a'u gofynion personol. Mae perthynas agos wedi ei meithrin rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Mae’r ymarferwyr yn annog y plant i ddewis a dethol adnoddau eu hunain tu fewn a thu allan. Maent yn cynorthwyo’r plant i ehangu eu dealltwriaeth o’r Gymraeg ac yn datblygu eu dychymyg wrth ddysgu a chwarae yn yr awyr agored. Er engraifft yn modelu iaith pwrpasol tra yn y twba dwr fel ‘llawn’, gwag’ a ‘llîf y dwr’. Mae’r ymarferwyr yn cyfathrebu mewn ffordd ofalgar ac yn dathlu llwyddiannau'r plant yn effeithiol. Maent yn cefnogi’r plant sydd arddangos ymddygiadau llai

derbyniol ond ar adegau nid ydynt yn ddigon cadarn wrth gyfleu eu disgwyliadau. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd da i blant fod yn annibynnol trwy annog iddynt ddewis eu snac eu hunain o'r troli.

Mae ymarferwyr yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag at y plant. Maent yn cynnig ystod dda o weithgareddau a phrofiadau sydd yn datblygu medrau'r plant yn effeithiol. Mae rhai ymarferwyr yn deg wrth reoli ymddygiad ac yn fodelau rôl cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ymysg yr holl ymarferwyr. Maent yn sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn atgoffa plant nad yw dringo byrddau a chadeiriau yn dderbyniol. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda am anghenion dysgu ychwanegol, gyda gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer adnabod anghenion plant yn gynnar a'u cyfeirio am gefnogaeth o asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn arddangos dealltwriaeth briodol o ddatblygiad plant. .Maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn darparu profiadau priodol i ennyn diddordeb a hybu dysgu'r plant. Maent wedi dechrau cynllunio'n unol ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, gan gynllunio ystod eang o brofiadau dysgu a chwarae gwerthfawr tu fewn a thu allan i'r adeilad. Er enghraifft, caiff y plant gyfleoedd i arbrofi gyda phaent, chwarae rôl wrth weini bwydydd i'w gilydd ar lestri go iawn a datblygu eu medrau cydbwyso ar y beiciau.

Mae'r ymarferwyr yn dechrau cofnodi arsylwadau o ddatblygiad a chyflawniadau plant yn briodol. Mae llawer o'r ymarferwyr yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol wrth chwarae wrth ochr plant, ac yn ymyrryd yn amserol i atgyfnerthu'r dysgu.

Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio gwybodaeth am gynnydd plant i gynllunio gweithgareddau sy'n ymateb i'w diddordebau er mwyn annog cynnydd.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd y plant. Er enghraifft, maent yn ei hannog i chwarae rôl yn y gegin drwy greu brecwast a gweini ar ei gilydd, ac i greu marciau gydag amrywiaeth o gyfryngau. Maent hefyd yn darparu nifer helaeth o brofiadau i ddatblygu medrau rhifedd y plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn ei chymell i rifo, cyfateb a didoli cregyn yn ôl maint o'r lleiaf i'r mwyaf. Gan amlaf mae'r ymarferwyr yn modelu iaith lafar yn effeithiol gan gyflwyno geirfa, patrymau iaith a chanu caneuon bywiog. Mae llawer o'r ymarferwyr yn holi plant yn briodol er mwyn ehangu eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn defnyddio cwestiynau penagored yn ddigon effeithiol er mwyn datblygu medrau cyfathrebu'r plant. At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau cynnar digidol y plant yn datblygu'n briodol yn unol â'u hoed. Er enghraifft maent yn darparu teclynnau siarad er mwyn i'r plant ddatblygu eu medrau cyfathrebu.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn datblygu cyfleoedd effeithiol iddynt fagu annibyniaeth. Maent yn darparu cyfnodau hir o chwarae di-dor i blant archwilio eu syniadau, ac i ganolbwyntio am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, maent yn sicrhau amrediad da o adnoddau er mwyn i'r plant greu bwydydd gwahanol allan o berlysiau, tywod a dŵr yn y gegin fwd. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau corfforol a datrys problemau'r plant. Er

enghraifft, maent yn eu hannog i geisio cydbwyso gwrthrychau gwahanol mewn clorian ac i ddarganfod pa gerbyd sy'n teithio'n gyflymaf i lawri'r cafn dŵr.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol trwy greu cardiau i ddathlu gŵyl Santes Dwynwen a phaentio Cennin Pedr ar gyfer Dydd Gwŷl Dewi. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin trwy wneud defnydd gwerthfawr o'r dref, trwy gerdded i'r siop a'r parc, ac arsylwi ar y cerbydau'n teithio ar hyd y ffordd ddeuol. Maent yn darparu profiadau buddiol i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Maent yn hyrwyddo amrywiaeth yn briodol trwy lyfrau a theganau amlddiwylliannol ac astudio gwyliau arbennig, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân ar gyfer y plant. Nid oes modd i ymwelwyr gael mynediad i'r lleoliad, na'r ardal allanol ac mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod ymwelwyr yncofnodi eu presenoldeb. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu gweithredu ac maent yn cadw cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol. Cedwir cofnodion am y plant a'r ymarferwyr yn gyfrinachol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod offer i ddiogelu'r amgylchedd yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd, er enghraifft yr offer tân a'r blwch cymorth cyntaf. Mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg effeithiol, ac maent yn cael eu hadolygu'n.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd cartrefol sy'n cynnig ethos croesawgar, cyfeillgar a chynnes. Mae'r amgylchedd tu mewn yn cynnig lle priodol ar gyfer nifer y plant sy'n mynychu'n ddyddiol. Mae arweinwyr yn darparu toiledau addas ynghyd â chyfleusterau pwrpasol i olchi a sychu dwylo, sydd yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo annibyniaeth y plant. Maent wedi creu amgylchedd diogel yn yr ardal tu allan, sydd yn cynnig heriau a chyfleoedd pwrpasol i blant gymryd risg a datblygu chwilfrydedd. Mae'r ardal hon yn cynnig cysgod o dan do yn ogystal ag ardal ddiogel sy'n cynnig profiadau chwarae corfforol, dychmygol a chreadigol gwerthfawr i'r plant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cydbwysedd da rhwng hyrwyddo diogelwch i blant a'u cefnogi i fentro.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod adnoddau amrywiol a phwrpasol, ar lefelau isel ar gael tu fewn a thu allani'r adeilad. O ganlyniad, mae gan blant fynediad i deganau, adnoddau a chyfarpar eang, sydd yn eu galluogi i ddewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau unigol, fel adnoddau pren, crefft, a'r byd bach. Mae'r ardal tu allan yn galluogi plant i ddatblygu eu medrau corfforol, creadigol ac arbrofol yn effeithiol. Mae'r teganau a'r adnoddau yn addas ac o safon dda, er enghraifft beiciau a strwythur pibau ddŵr,. Mae ymarferwyr yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda trwy gynnig cyfleoedd i blant chwarae ag adnoddau amlddiwylliannol. Er enghraifft, mae ystod o ddoliau o wahanol ddiwylliannau yn yr ardal chwarae rôl a byd bach. Mae arweinwyr yn paratoi arddangosfeydd pwrpasol, er enghraifft, teimladau, y corff, lles a llais y plant a'r gymuned.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau gwasanaeth o safon uchel o ran lles, gofal a dysgu o fewn awyrgylch hapus, teuluol a Chymraeg. Mae'r arweinydd yn parchu a gwerthfawrogi gwaith yr ymarferwyr ac mae awyrgylch cadarnhaol o weithio fel tîm. Mae gan ymarferwyr gymwysterau a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc ac mae eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir. Mae cymarebau da o oedolion i blant ac mae cynlluniau addas wrth gefn rhag ofn y bydd yr arweinydd neu un o'r ymarferwyr yn absennol.

Mae'r datganiad o ddiben yn glir ac mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ystod addas o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol yn eu lle. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth briodol i rieni / gofalwyr wneud y dewis gorau am ofal eu plant.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau addas i werthuso gwaith y lleoliad ac maent yn eu gweithredu'n briodol i adnabod cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Er enghraifft, maent yn adnabod yr angen i barhau i fuddsoddi mewn adnodau naturiol amlgyfrwng ac i ddatblygu ymhellach ddealltwriaeth a gwybodaeth yr ymarferwr o arsylwi ac asesu cynnydd plant.Fodd bynnag, nid yw'r arferion monitro ar gyfer goruchwylio a gwerthuso perfformiad yr ymarferwyr wedi eu sefydlu'n llawn eto.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r gyllideb a'r grantiau yn effeithiol ac yn sicrhau gwariant yn erbyn blaenoriaethau yn briodol. Er enghraifft, maent wedi sicrhau canopi ac adnoddau fel dillad ac esgidiau glaw sydd yn hyrwyddo profiadau gwerthfawr i'r plant chwarae allan ym mhob tywydd.

Mae'rymarferwyr a'r arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gydag amryw o bartneriaethau gan gynnwys yr awdurdod lleol, asiantaethau allanol a'r rhieni a gofalwyr. Mae'r lleoliad yn rhannu gwybodaeth bwysig yn gyson gyda rhieni a gofalwyr am eu polisïau a'u gweithdrefnau. Gwnânt hyn trwy sgyrsiau dyddiol anffurfiol yn ôl yr angen, a thrwy gyfrwng grŵp cyfryngau cymdeithasol caeedig.

Mae gan y lleoliad berthynas adeiladol gyda'r ysgol ac maent yn cyd weithio'n agos er mwyn sicrhau fod y plant yn trosglwyddo i'r cam nesaf yn eu dysgu yn hwylus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/05/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 17 Mai 2024